

Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (rheoli cŵn) 2022



Hysbysir trwy hyn bod Cyngor Dinas a Sir Casnewydd yn cynnig gwneud Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus dan Adranau 59 a 72 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 a fydd yn effeithio ar unrhyw Fan Cyhoeddus fel y nodir yn y Gorchymyn drafft sydd wedi'i atodi.

Diben y Gorchymyn fydd gorfodi perchnogaeth gyfrifol dros gŵn.

Mae Cyngor Dinas a Sir Casnewydd (a elwir "y Cyngor" yn y Gorchymyn hwn), wrth arfer ei bwerau yn unol ag Adran 59 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau galluogi eraill, ar ôl ymgynghoriad a gynhaliwyd yn unol â'r Ddeddf, ac wedi'i fodloni bod cerdded mewn manau cyhoeddus â chŵn yn afreolus ac anghyfrifol yn cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd y gymuned leol a bod yr amodau a nodir yn Adran 59 y Ddeddf wedi'u cyflawni, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

1 Diffiniadau a Dehongli

1.1 Yn y darpariaethau canlynol yn y Gorchymyn hwn bydd i'r termau canlynol yr ystyron a roddir iddynt fel a ganlyn:-

"Swyddog Awdurdodedig" - y person sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig gan y Cyngor at ddibenion y Gorchymyn hwn

"Person â person â Chyfrifoldeb" - y person sydd â'r ci yn ei feddiant, dan ei ofal neu yn ei gwmni ar adeg cyflawni'r drosedd neu fel arall, y perchennog neu'r person sydd fel rheol â'r ci yn ei feddiant

"Man Cyhoeddus" - unrhyw le y mae gan y cyhoedd fynediad ato (gyda neu heb dâl neu ganiatâd) ac y mae'r Cyngor yn berchen arno neu'n ei gynnal, gan gynnwys ffyrdd, llwybrau troed, palmentydd, lleiniau ymyl y borfa, lonydd cefn, parciau cyhoeddus a gerddi, manau gwyrdd a rhandiroedd

1.2 Ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn gofyn fel arall, mae'r ffurf unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb; ac mae'r ffurf wrywaidd yn cynnwys y ffurf fenywaidd ac i'r gwrthwyneb.

1.3 Mae cyfeiriadau at Ddeddf Seneddol, darpariaeth statudol neu offeryn statudol yn cynnwys cyfeiriad at Ddeddf Seneddol, darpariaeth statudol neu offeryn statudol fel y'i diwygiwyd, y'i hystynnwyd neu a ddeddfwyd o dro i dro ac unrhyw reoliadau a wneir o danynt.

2 Cwmpas

Mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i Fannau Cyhoeddus yn Ninas a Sir Casnewydd y'u disgrifir ac y'u dangosir yn y Gorchymyn a'r Atodlenni a atodir at y Gorchymyn.

3 Hyd

Daw'r Gorchymyn i rym ar xxx 2022, a bydd yn parhau mewn grym am 3 blynedd o'r dyddiad hwn, oni bai y caiff ei ymestyn gan orchmynion pellach a wneir dan bwerau statudol y Cyngor.

4 Teitl

Gellir cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel "Gorchymyn Cyngor Casnewydd (Diogelu Mannau Cyhoeddus) (Rheoli Cŵn) 2022"; ac mae'n gosod y gofynion a'r gwaharddiadau canlynol.

5 Baw Cŵn

Ym mhob Man Cyhoeddus yn Ninas a Sir Casnewydd, fel y dangosir ar y cynllun yn Atodlen A, mae'r gofynion canlynol yn berthnasol:

- 5.1 (a) Os bydd ci'n baw ar unrhyw adeg, rhaid i'r Person â Chyfrifoldeb waredu'r baw o'r tir yn syth; a
- (b) Rhaid i Berson â Chyfrifoldeb dros gi feddu ar fodd priodol o godi unrhyw faw a berthyn i'r ci hwnnw, a rhaid dangos hyn os bydd Swyddog Awdurdodedig neu Gwnstabl yr Heddlu yn gofyn i'w weld.

5.2 At ddibenion Erthygl 5.1 (a)

- (i) Bydd rhoi'r baw mewn cynhwysydd ar y tir a ddarperir at ddibenion gwaredu gwastraff yn ffordd ddigonol o waredu'r baw o'r tir; a
- (ii) Ni fydd bod yn anymwybodol o'r ffaith bod ci wedi gadael baw (boed hynny oherwydd peidio â bod yn agos at y ci neu fel arall), neu fod heb ffordd o godi'r baw yn esgus rhesymol dros fethu cael gwared ar y baw.

6 Cŵn ar Denynnau

- 6.1 Mewn unrhyw fan cyhoeddus yn Ninas a Sir Casnewydd, ac fel y dangosir ar gynlluniau yn yr Atodlen sydd wedi'i hatodi at y Gorchymyn, rhaid i Berson â Chyfrifoldeb dros gi, ar unrhyw adeg, gadw'r ci dan reolaeth briodol. Os nad yw ar dennyn, rhaid ei roi a'i gadw ar dennyn pan ger cyfarwyddyd i wneud hynny gan Swyddog Awdurdodedig neu Gwnstabl yr Heddlu.
- 6.2 Yn unrhyw un neu rai o'r mynwentydd cyhoeddus a restrir ac a ddangosir yn Atodlen y Gorchymyn hwn, rhaid i unrhyw Berson â Chyfrifoldeb dros gi, ar unrhyw adeg, roi a chadw'r ci ar dennyn a'i reoli'n iawn.
- 6.3 At ddibenion Erthygl 6.2, bydd Swyddog Awdurdodedig neu Gwnstabl yr Heddlu ond yn cyfarwyddo person i roi a chadw ci ar dennyn os oes angen rhesymol am i'r ci gael ei reoli er mwyn osgoi niwsans, neu ymddygiad gan y ci sy'n debygol o achosi gofid neu aflonyddu i unrhyw berson neu anifail neu fywyd gwyllt / aderyn arall ar y tir.
- 6.4 Ni chaniateir unrhyw gŵn ar gaeau chwarae wedi'u marcio yn ystod y tymhorau chwarae perthnasol, fel y nodir isod. Dim ond y tu allan i amserlen gemau cyhoeddus y tymor chwaraeon y caniateir i unrhyw Berson â Chyfrifoldeb dros gi ddefnyddio'r ardal hon.

Y Tymor Pêl-droed – I Gorffennaf tan 30 Ebrill
Rygbi – I Medi tan 30 Ebrill
Criced – I Ebrill tan 30 Medi

7 Eithrio Cŵn (Meysydd Chwarae Amgaaedig i Blant)

- 7.1 Mae person â Chyfrifoldeb dros gi wedi'i wahardd rhag mynd â chŵn i mewn i, neu aros yn, unrhyw faes chwarae, ardal gemau neu gwrth peli amgaaedig i blant a ddisgrifir neu a restrir yn yr sydd wedi'i hatodi at y Gorchymyn hwn.

8 Troseddau a Chosbau

- 8.1 Bydd methu â chydymffurfio â'r gofynion neu'r cyfyngiadau a osodir yn Erthyglau 5, 6 neu 7 y Gorchymyn hwn yn drosedd, oni bai;
- Bod gan y person esgus rhesymol dros fethu â gwneud felly;
 - Bod perchennog, meddiannydd neu berson neu awdurdod arall sy'n gyfrifol am y tir wedi caniatáu (yn gyffredinol neu'n benodol) iddo fethu â gwneud felly; neu
 - Fod y person wedi'i eithrio dan Erthygl 9 y Gorchymyn hwn
- 8.2 Bydd unrhyw berson sy'n euog o drosedd dan y Gorchymyn hwn yn agored, wedi collfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol (ar ddyddiad y Gorchymyn hwn, £1,000 yw hyn).
- 8.3 Gall Swyddog Awdurdodedig neu Gwnstabl yr Heddlu gyhoeddi Hysbysiad Cosb Benodedig i unrhyw un y credir ei fod wedi cyflawni trosedd dan y Gorchymyn hwn. Y Gosb Benodedig fydd £100. Bydd talu'r Gosb Benodedig o £100 o fewn 14 diwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad Cosb Benodedig yn atal y posibilrwydd o erlyniad.

9 Erlyn

Ni fydd y gofynion a'r gwaharddiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn yn berthnasol i unrhyw berson sydd;

- Wedi'i gofrestru'n ddall, yn berson sydd â nam ar ei olwg neu'i glyw dan Ddeddf Cymorth Gwladol 1948, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu unrhyw ddeddfwriaeth arall;
- Ag anabledd sy'n effeithio ar ei symudedd, medrusrwydd corfforol, cydsymud corfforol, neu allu i godi, cludo neu symud gwrthrychau bob dydd, o ran ci wedi'i hyfforddi gan elusen gofrestredig ac y mae'n dibynnu arno am gymorth; neu
- Yn defnyddio ci sy'n gweithio at ddibenion gorfodi'r gyfraith, dyletswyddau milwrol neu wasanaethau brys statudol (chwilio ac achub).

10 Apêl

Gall unrhyw berson â diddordeb (a ddiffinnir fel unigolyn sy'n byw yn yr ardal gyfyngedig neu sy'n gweithio'n rheolaidd yn yr ardal honno neu sy'n ymweld â hi'n rheolaidd) gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn, yn unol ag Adran 66 y Ddeddf, trwy gais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o ddyddiad y Gorchymyn.

11 Dilysrwydd (Dileu)

Os bydd unrhyw un o ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn yn annilys neu na ellir ei gorfodi am unrhyw reswm a bennir gan lys awdurdod cymwys, caiff y ddarpariaeth honno ei dileu a bydd gweddill darpariaethau'r Gorchymyn yn parhau mewn grym llawn fel pe bai'r Gorchymyn wedi'i weithredu ar ôl cael gwared ar y ddarpariaeth anghyfreithlon neu annilys neu'r ddarpariaeth na ellir ei gorfodi.